

CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 2il o Rhagfyr 2019 yn Yr Hen Ysgol

Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Arwel Evans

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Llinos Davies, Robin Phillips, Lon Davies,

Cynghorydd Sir:

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Diolchwyd I pawb a roedd yn presennol yn helpu gyda cinio Nadolig y Pensiynwyr yn yr Hen Ysgol. Dymunwyd Nadolig Llawn I pawb.

Ymddiheiriadau:- Sarah-Jane Absalom, Ieuan Davies, Cyng. Cris Tomos

Cyfarfod - 05.11.19

Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Lon Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

69. Arwel wedi archebu pads ar gyfer y Defibriliwr yn Eglwyswrw.

Gohebiaeth

70. Cyfanwsm yn y banc 25.11.19 - £3,440.76

71. Ebst wrth Sandra Llewellyn ynglyn a coeden Nadolig ar gyfer Brynberian, Ffynnongroes a Eglwyswrw – Cyn trafod fe wnaeth Llinos Davies a Lon Davies datgan diddordeb yn y mater. Ar ol trafodaeth hir fe cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ceirwyn John cyfraniad I fyny at £100.00 I Eglwyswrw a Brynberian er mwyn cael coeden Nadolig yn y ddau pentref. Can fod goleuadau yn cael ei rhoi I fyny yn Ffynnongroes fe penderfynnwyd I peidio rhoi coeden ar y sgwar yno. Cyfrifoldeb yr unigolion sydd yn gosod y goleuadau yw I wneud PAT Test a fydd y Cyngor Cymuned yn gwenud yr asesiad risg.

72. Gwybodaeth Cronfa Asedion Cymunedol – Cyfarfod Dydd Llun 16 o Rhagfyr 12.30yp -1.30yp Uned 9 PLANED. Croeso cynnes I pawb.

Unrhyw Fater Arall

73. Gwybodaeth ynglyn a Enhancing Pembrokeshire ar ceisiadau diweddara. Neuadd Ffynnongroes wedi rhoi cais am £4,800

74. Gwybodaeth ynglyn a newidiadau yn eich cerdyn bws sydd yn dod I ben 31.12.19. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac fe fyddy gwybodaeth yn yr hysbysfwrdd.

75. Fe ddywedodd Llinos Davies ynglyn a car sydd wedi ei parcio ger Gernos os ychydig ddiwrnodau. Helen I gysylltu a Cyngor Sir Benfro ynglyn a symud y car.

76. Helen wedi atgoffa pawb ynglyn a'r cwrdd Nadolig yn Eglwys St'Cristiolus nos Sul.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 7fed o Ionawr am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8.50 y.h.